

Canllaw i Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Cynllunio

Cyflwyno Achos ar Gais Cynllunio

Pryd bynnag mae'n bosibl, dylid cyflwyno achos ar gais cynllunio yn ysgrifenedig. Derbynnir cyflwyniadau achos ar geisiadau cynllunio hyd ar 12.00 ganol dydd ar y diwrnod cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a byddant ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Bydd y cyflwyniadau achos a dderbynnir yn rhy hwyr i gyfeirio atynt yn adroddiad y pwyllgor yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'r noson cyn cyfarfod y Pwyllgor, a chaiff copïau caled eu dosbarthu yn y cyfarfod.

Siarad Cyhoeddus

Ar adegau, bydd ymgeiswyr neu wrthwynebwyr, neu'r ddau, yn dymuno cyflwyno achos i'r Pwyllgor Cynllunio eu hunain. Ar achlysur o'r fath, dilynir y drefn isod:

Hysbysiad i Siarad

Mae gofyn cael rhybudd digonol ymlaen llaw am siaradwyr er mwyn asesu'r presenoldeb cyhoeddus tebygol yn ei gyfanrwydd, paratoi nifer ddigonol o gopïau o agendâu, a chynnig cefnogaeth a chynghor i bobl sy'n ansicr o'r drefn. Yn ogystal, efallai fydd angen datrys materion sy'n ymwneud ag enwebu prif lefarydd, a bydd angen cyfnod rhesymol o hir i bobl gydlynu eu hymateb.

Oni fyddwch yn rhoi gwybod yn benodol i ni fel arall, wrth gofrestru i siarad, rydych chi'n cytuno y gall y Cyngor anfon eich manylion ymlaen at bobl eraill (sydd o'r un farn â chi) sy'n dymuno siarad, er mwyn eich cynorthwyo i enwebu un lefarydd.

Bydd y llythyron hysbysu cymdogion a'r gydnabyddiaeth o gais cynllunio fel ei gilydd yn hysbysu'r atebwyr a'r ymgeiswyr o'u hawl i siarad â'r pwyllgor, a chyfrifoldeb y sawl sy'n dymuno siarad yw sicrhau eu bod yn cofrestru i wneud hynny.

Oherwydd hyn, rhaid derbyn ceisiadau i siarad yn ddim hwyrach na 5.00pm, dau ddiwrnod cyfan (dydd Mawrth wythnos y Pwyllgor pan gynhelir cyfarfod ar ddydd Iau) cyn cyfarfod y pwyllgor.

I gofrestru eich diddordeb, llenwch y ffurflen ar-lein yma:
www.valeofglamorgan.gov.uk/pwyllgorcynllunio.

Cydnabyddir nad oes gan bob unigolyn fynediad i gyfathrebu electronig. Yn yr achos hwn, gofynnir i bobl gofrestru dros y ffôn ar 01446 709144 (gofynnir am yr un wybodaeth ag sydd ei hangen i lenwi'r ffurflen ar-lein).

Y Drefn

Caniateir dim mwy na 3 munud i bob unigolyn annerch y Pwyllgor, a derbyn bod (ni waeth faint yw nifer y siaradwyr) y sawl sy'n siarad o blaid **ac** yn erbyn yn siarad am yr un faint o amser fel cyfanswm. Er enghraifft, os digwydd bod dau neu fwy o bobl wedi cofrestru i siarad yn erbyn cais, ac mai dim ond un sy'n siarad o blaid, bydd e/hi yn cael siarad am 6 munud. Mae hyn i sicrhau bod amser cydradd ar gael i'r sawl sy'n siarad o blaid ac yn erbyn pob cais.

Uchafswm o 6 munud a ganiateir i'r sawl sydd wedi cofrestru i siarad o blaid **neu** yn erbyn cais gerbron y Pwyllgor. Os oes mwy nag un person wedi cofrestru i siarad o blaid neu yn erbyn, cânt eu hannog i ddewis un llefarydd. Fel arall, caiff y 6 munud eu rhannu rhwng y bobl sydd wedi cofrestru i siarad. Bydd y terfynau amser yn cael eu gweithredu'n fanwl gywir.

Ni fydd gan y sawl sy'n annerch y Pwyllgor hawl i ddosbarthu gwaith papur i'r Aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor, ac ni ddarperir adnoddau ar gyfer cyflwyniadau.

NB Mae'r drefn hon yn berthnasol i Gyngorwyr Tref a Chymuned hefyd. Rhaid iddynt gofrestru i siarad yn unol â'r canllawiau.

Pwyl all siarad?

Yn amodol ar gydymffurfiaeth â gofynion cofrestru a'r drefn a nodir yn y canllaw hwn, mae'r bobl isod yn gymwys i siarad:

Gwrthwynebwyr i'r cais neu eu cynrychiolydd;

Yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd;

Cynrychiolydd Cyngor Tref neu Gymuned;

Cynghorydd a etholwyd i Gyngor Bro Morgannwg nad sy'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio

(NB Nid oes gofyn i Aelodau Cyngor Bro Morgannwg gofrestru er mwyn cael siarad).

Materion Perthnasol

Dylid gwneud penderfyniadau cynllunio ar sail ystyriaethau cynllunio perthnasol, nid ar sail ystyriaethau amherthnasol, a dylai siaradwyr barchu hyn. Ceir gwybodaeth berthnasol bellach yma: www.valeofglamorgan.gov.uk/pwyllgorcynllunio

Trefn Cyfarfod y Pwyllgor

Gwelir trefn y cyfarfod isod (yn amodol ar weithredu'r ystyriaethau a restrir uchod yn achos presenoldeb mwy nag un unigolyn sydd wedi'u cofrestru i siarad o blaid neu yn erbyn y cais) :

- Yn y cyfarfod, bydd y Swyddog Cynllunio'n cyflwyno'r adroddiad.
- Gofynnir i wrthwynebwyr i'r ceisiadau gyflwyno eu hachos. Ni fydd hawl gan y siaradwyr i ofyn cwestiynau i'r swyddogion na'r Pwyllgor. Gall aelodau o'r Pwyllgor sy'n dymuno gofyn am eglurhad pellach wneud hynny ar ddiwedd y cyfnod siarad penodedig, ond ni ddylent dorri ar draws siaradw(y)r na'u holi mewn unrhyw fodd arall.
- Yna, bydd hawl gan Gynghorwyr Cyngor Bro Morgannwg nad sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio i annerch y Pwyllgor, yn ddarostyngedig i derfyn amser o 3 munud i bob Cynghorydd.
- Wedi hyn, gofynnir i'r sawl sy'n cefnogi'r cais gyflwyno eu hachos Ni fydd hawl gan y siaradwyr i ofyn cwestiynau i'r swyddogion na'r Pwyllgor. Gall aelodau o'r Pwyllgor sy'n dymuno gofyn am eglurhad pellach wneud hynny ar ddiwedd y cyfnod siarad penodedig, ond ni ddylent dorri ar draws siaradw(y)r na'u holi mewn unrhyw fodd arall.
- Ar ôl hynny, gall Swyddogion y Cyngor gynnig sylwadau ar yr achosion a gyflwynwyd a nodi teilyngdod y cais.
- Yna, bydd y Pwyllgor yn trafod y cais ac yn gwneud penderfyniad. Mae'n bosibl y bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Swyddog Cynllunio egluro materion sy'n codi yn ystod y drafodaeth. Bydd cofnodion y cyfarfod yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad.
- Nid oes hawl i ateb, ac nid oes gofyn bod y drafodaeth yn "gytbwys" os nad oes siaradwr wedi'i gofrestru mewn slot penodol.

Ceisiadau a Ohiriwyd

Os caiff cais ei ohirio mewn cyfarfod pwyllgor ar sail y ffaith fod angen gwybodaeth a / neu ddadansoddi pellach, yr un fydd y drefn ar gyfer siarad cyhoeddus pan gaiff y cais ei ystyried yn y cyfarfod(ydd) Pwyllgor sy'n dilyn.

Gwybodaeth bellach

Rhaid i bawb sydd wedi cofrestru i siarad gyrraedd y cyfarfod pwyllgor erbyn 3.45pm, a rhoi gwybod i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd eu bod wedi cyrraedd.

Nodwch fod pob Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio'n cael ei ddarlledu'n fyw ar y rhyngwrwyd ("gweddarlledu")

Nid yw'r drefn hon yn berthnasol i ymweliadau safle'r Pwyllgor Cynllunio, lle ni chaniateir siarad cyhoeddus.